Access to Higher Education

QAA

Rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU

Adroddiad rheoleiddiol blynyddol am y Diploma Mynediad i AU: 2025-26



Tachwedd 2026

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 4

Trosolwg o'r system Mynediad i AU yn 2024-25 5

Cyflwyniad: Mynediad i AU yn 2025-26 6

Beth yw Mynediad i AU a pham y mae mor bwysig? 6

Dathlu llwyddiant y dysgwyr 8

Rhan 1: Cywirdeb – cynnal hyder yn y Diploma 9

Gweithredu'r Cynllun Cydnabod diwygiedig 9

Trwyddedu a goruchwylio Asiantaethau DMiAU 10

Monitro, sicrhau a gorfodi cydymffurfiad 11

Nodau masnach, eglurder a threfnau diogelu dysgwyr 11

Edrych ymlaen 12

Sicrhau cynaliadwyedd ariannol 12

Cynnal arfer gorau mewn rheoleiddio 13

Casgliad 14

Rhan 2: Cyfle – cefnogi dysgwyr i symud ymlaen ac i lwyddo 15

Cyfranogaeth a darpariaeth 16

Canlyniadau a chynnydd y dysgwyr 17

Deall y dysgwyr heddiw 17

Cryfhau ein dealltwriaeth o deithiau'r dysgwyr 18

Rhan 3: Perthnasedd – sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn parhau'n 19

Deall sector Mynediad i AU sy'n newid 19

Risgiau a heriau sy'n dod i'r amlwg 20

Galw, cyfranogaeth a chynaliadwyedd 20

Dulliau darparu digidol a threfnau diogelu dysgwyr 20

Cynnal hyder yn y safonau 20

Cydbwyso arloesiad a rheoleiddio 21

Amgylchedd polisi sy'n newid 21

Cyfleoedd i dyfu a datblygu 22

Rhan 4: Dylanwad ac arweiniad rheoleiddiol 23
Rôl QAA o ran hybu dealltwriaeth pobl o'r Diploma Mynediad i AU 23
Gweithio gyda chyrff rheoleiddio eraill 23
Dylanwadu ar ddiwygiadau i drefniadau cyllido a pholisïau 24
Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol 25

Rhan 5: Blaenoriaethau o ran Mynediad i AU yn 2026-27 26
Cywirdeb 26
Cyfle 26
Perthnasedd 27
Edrych ymlaen 27

Atodiad A: Llywodraethu a chyllidebu 28
Y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (PwyllgorRhThrMiAU) 28
Trosolwg ariannol 29

Atodiad B: Amodau'r Cynllun Cydnabod Mynediad i AU 30

Atodiad C – Tablau ystadegol 33



Crynodeb gweithredol

1. Ers 1997, mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) wedi bod yn gyfrifol am yr oruchwyliaeth reoleiddiol ar y Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Diploma MiAU), ac, yn ystod yr amser hwnnw, mae mwy na miliwn o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU.

2. Mae'r Diploma Mynediad i AU yn chwarae rôl hollbwysig o ran ehangu cyfranogaeth a chefnogi dysgu gydol oes a datblygiad sgiliau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Wrth i lywodraethau, cyflogwyr a darparwyr addysg uwch ymateb i'r galw cynyddol am sgiliau uwch, i'r prinder yn y gweithlu ac i'r newid yn y patrymau dysgu, mae'r Diploma'n parhau i fod yn llwybr dibynadwy i mewn i addysg uwch i'r oedolion hynny sydd o bosib heb ddilyn y llwybrau addysgol traddodiadol. Trwy rwydwaith o naw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU') wedi eu trwyddedu a mwy na 250 o ddarparwyr sy'n darparu'r cymhwyster, mae bron i 35,000 o ddysgwyr bob blwyddyn yn manteisio ar gyfleoedd i symud ymlaen i addysg uwch a gweddnewid eu rhagolygon at y dyfodol.

3. Mae'r hyn a welwyd eleni'n tystio i gryfder a gwerth parhaus y cymhwyster. Cafwyd nifer sylweddol o ddysgwyr unwaith eto, parhaodd y canlyniadau'n gryf o ran cynnydd ac roedd y Diploma'n dal i gefnogi blaenoriaethau o ran sgiliau ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol mewn meysydd megis iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, gwyddoniaeth a pheirianneg. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd QAA i weithredu'r Cynllun Cydnabod diwygiedig ar gyfer Mynediad i AU, gan gryfhau'r oruchwyliaeth reoleiddiol, gweithio gyda'r Asiantaethau DMiAU a'r darparwyr i gynnal hyder yn y safonau, cefnogi darpariaeth o safon uchel, a sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion y dysgwyr a'r sector.

   Dyma'r tair egwyddor reoleiddio sydd wedi tywys ein gwaith:

   Cywirdeb
   cynnal hygrededd, safonau ac enw da'r Diploma Mynediad i AU.

   Cyfle
   cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn.

   Perthnasedd
   sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i ateb anghenion y dysgwyr, darparwyr addysg uwch, cyflogwyr a'r gymdeithas.

4. O edrych i'r dyfodol, mae'r sector Mynediad i AU yn wynebu heriau yn ogystal â chyfleoedd. Mae'r cyfraddau cyfranogaeth ar draws y sector addysg i oedolion yn parhau'n agored iawn i effeithiau pwysau economaidd, newid demograffig a threfniadau cyllido sy'n newid, ac ar yr un pryd mae dulliau darparu newydd, dysgu ar-lein a thechnolegau newydd eu datblygu'n creu cyfleoedd i arloesi a heriau o ran rheoleiddio. Ochr yn ochr â hyn, mae datblygiadau sy'n cynnwys yr Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn Lloegr, y galw cynyddol am sgiliau uwch, a chydnabyddiaeth gryfach i lwybrau dysgu hyblyg yn creu cyfleoedd sylweddol i gryfhau estyniad ac effaith y Diploma. Bydd QAA yn parhau i weithio gydag Asiantaethau DMiAU, darparwyr a llywodraethau i ddiogelu safonau, cefnogi dysgwyr a sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn parhau i fod yn llwybr credadwy, perthnasol a chynaliadwy i mewn i addysg uwch.

Trosolwg o'r system Mynediad i AU yn 2024-25

Llwybr dibynadwy i mewn i addysg uwch

Cymhwyster lefel 3 i oedolion sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, o dan reolaeth QAA ers 1997, gyda mwy na miliwn o ddysgwyr cofrestredig.

34,790 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar gyrsiau Mynediad i AU (newydd a pharhaus)

17,080 o Ddiplomâu Mynediad i AU wedi eu dyfarnu

93% o'r dysgwyr wedi ennill Diploma (fel canran o gyfanswm y dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau)

Cyrhaeddiad cenedlaethol

9	256	1,191	3
Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch (AVAs) wedi eu trwyddedu	o ddarparwyr cymeradwy'n darparu'r cyrsiau	o gyrsiau ar gael ↑ **(sef gostyngiad o 4% ar ffigur 2023-24)**	gwlad o'r DU: Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Paratoad cadarn ar gyfer addysg uwch

14.8% o'r dysgwyr wedi cyflawni proffil graddau 'Rhagoriaeth' i gyd
Y ffynonellau: AVAs

18,285 o'r dysgwyr â Diploma Mynediad i AU wedi eu derbyn yng nghylch 2024
Y ffynonellau: UCAS

Ehangu cyfranogaeth (data'r Asiantaethau DMiAU)

22.5% o'r dysgwyr yn dod o ardaloedd difreintiedig

31.4% o'r dysgwyr â chefndir Asiaidd, du neu aml-ethnig

52.6% o'r dysgwyr yn iau na 24 oed, ochr yn ochr ag oedolion sy'n dychwelyd i addysg

Uchafbwyntiau ein gwaith yn 2025-26 ar sail ein hegwyddorion rheoleiddio

Cywirdeb

- Gweithredwyd y Cynllun Cydnabod diwygiedig, cwblhawyd y cylch trwyddedu llawn cyntaf
- Ailaseswyd pob un o'r naw Asiantaeth DMiAU yn erbyn 23 o amodau rheoleiddiol
- Cofrestrwyd nodau masnach i ddiogelu dysgwyr a safonau cenedlaethol

Cyfle

- Cadarnhawyd cymorth ariannol Benthyciad i Ddysgwyr Uwch Parhaus yn Lloegr, a ddiddymir pan fydd dysgwyr wedi cwblhau eu cyrsiau addysg uwch cymwys
- Dathlwyd llwyddiant y dysgwyr yn y Gwobrau Keith Fletcher, Palas San Steffan

Perthnasedd

- Yn cefnogi blaenoriaethau o ran sgiliau mewn iechyd, addysg, gofal cymdeithasol gwyddoniaeth a pheirianneg
- Cydnabyddir hyn fel llwybr i mewn i addysg uwch yn neddfwriaeth ddrafft yr Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn Lloegr

Y ffynonellau: data a gafwyd gan y naw Asiantaeth DMiAU sydd wedi eu trwyddedu ar gyfer 2024-25; cylch 2025 UCAS – mae uchafbwyntiau'r gwaith rheoleiddio'n ymwneud â 2025-26.

Cyflwyniad: Mynediad i AU yn 2025-26

Beth yw Mynediad i AU a pham y mae mor bwysig?

5. Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Mynediad i AU) yn gymhwyster lefel 3 a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n darparu llwybr amgen i mewn i addysg uwch i oedolion sy'n ceisio symud ymlaen i'r brifysgol, datblygu sgiliau newydd, neu gyrchu cyfleoedd gyrfaol newydd. Mae'r Diploma'n cefnogi dysgwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol a phersonol ac mae'n chwarae rôl bwysig o ran ehangu cyfranogaeth a hybu symudedd cymdeithasol a dysgu gydol oes.

6. QAA yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i AU, sef swyddogaeth sy'n rhan o'i nodau elusennol. Yn y rôl hon, mae QAA yn trwyddedu ac yn goruchwylio Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU'), yn rhoi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i'r Diploma, ac yn sicrhau cywirdeb y cymhwyster ac yn diogelu ei enw da drwy'r Cynllun Cydnabod Mynediad i AU. Mae'r Cynllun yn nodi'r gofynion rheoleiddiol y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU eu bodloni er mwyn datblygu, dilysu a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Mae QAA hefyd yn dal y nodau masnach Mynediad i AU sy'n amddiffyn enw da'r cymhwyster a'r gydnabyddiaeth a roddir iddo ar lefel genedlaethol. Mae QAA yn rheoli'r Cynllun drwy ei Phwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU), sy'n is-bwyllgor i Fwrdd QAA. Fel amod o'i chytundeb trwydded, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gyfrannu at gostau gweithredu'r Cynllun Cydnabod drwy dalu ffi flynyddol. Mae'r ffi hon yn cynnwys cyfradd amrywiol sy'n dibynnu ar nifer y dysgwyr Mynediad i AU oedd wedi eu cofrestru gyda'r Asiantaeth DMiAU yn y flwyddyn flaenorol, ac mae'r tâl hwn yn helpu QAA gyda'i chostau am gynnal, rheoleiddio a datblygu'r Cynllun (gwelwch Atodiad A).

7. Mae tair rhan i egwyddorion rheoleiddio QAA: cynnal cywirdeb y Diploma, cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn, a sicrhau bod y Diploma'n dal yn berthnasol ac yn parhau i dyfu mewn tirlun polisïau sy'n newid. Mae'r egwyddorion hyn yn siapio ein penderfyniadau, ein disgwyliadau a'n perthynas gyda'r sefydliadau yr ydym yn eu rheoleiddio.

8. Trwy rwydwaith o naw Asiantaeth DMiAU wedi eu trwyddedu a mwy na 250 o ddarparwyr, darperir y Diploma i oddeutu 35,000 o ddysgwyr bob blwyddyn, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

9. Wrth i lywodraethau, cyflogwyr a darparwyr addysg ymateb i flaenoriaethau economaidd sy'n newid, y prinder yn y gweithlu a'r galw cynyddol am sgiliau uwch, mae'r angen am lwybrau hyblyg i mewn i addysg uwch yn fwy nag erioed. Ochr yn ochr â hyn, mae heriau sylweddol yn parhau o ran ehangu cyfranogaeth, hybu symudedd cymdeithasol a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddysgwyr o bob cefndir, ac nid yn unig i'r rheiny sy'n dilyn llwybrau addysgol traddodiadol.



10. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Diploma Mynediad i AU yn parhau i chwarae rôl hanfodol yn y tirlun addysg yn y DU. Mae'n darparu llwybr dibynadwy i mewn i addysg uwch i oedolion sy'n dychwelyd i addysg, i unigolion sy'n ceisio newid eu gyrfaoedd, ac i'r rheiny sydd heb gael y cyfle o'r blaen o bosib i symud ymlaen drwy ennill cymwysterau confensiynol. Wrth i'r agenda dysgu gydol oes esblygu ac wrth i'r amrywiaeth yn anghenion y dysgwyr gynyddu, mae'r Diploma Mynediad i AU yn dal i fod yn y sefyllfa unigryw o allu cefnogi cynnydd a datblygiad y gweithlu a dysgu sgiliau newydd iddynt, gan hefyd helpu i ymdrin ag anghydraddoldeb mewn cyfranogaeth a chyflawniad.

11. Hefyd, mae gan y cymhwyster rôl bwysig i'w chyflawni ar draws y gwledydd datganoledig, lle mae amrywiaeth mewn blaenoriaethau polisi, trefniadau cyllido a heriau demograffig yn creu cyfleoedd i arloesi a thyfu. Trwy gyfuno trylwyredd academaidd â hyblygrwydd ac ymrwymiad cryf i ehangu cyfranogaeth, mae Mynediad i AU yn parhau i gefnogi dysgwyr, cryfhau cymunedau a chyfrannu at y sgiliau a'r doniau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

12. Gellir gweld effaith y Diploma nid yn unig yn symud y dysgwyr ymlaen i addysg uwch, ond hefyd yn y rôl y mae'n ei chwarae o ran galluogi dysgwyr i ddatblygu hyder, cyflawni eu potensial a chyrchu gyrfaoedd mewn sectorau sydd o bwysigrwydd strategol, megis iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, gwyddoniaeth a pheirianneg.



Darllen am hanes Ellie Nancarrow

Dathlu llwyddiant y dysgwyr

13. Yn 2025-26, parhaodd cyflawniadau'r dysgwyr i ddangos effaith drawsnewidiol y Diploma Mynediad i AU a'r cyfleoedd y mae'n eu creu i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

14. Ym mis Mai 2026, cefnogodd QAA y Gwobrau Keith Fletcher blynyddol ym Mhalas San Steffan oedd yn dathlu cyflawniadau dysgwyr Mynediad i AU o bob rhan o'r wlad. Mae'r gwobrau'n cydnabod dysgwyr sydd wedi goresgyn rhwystrau personol ac addysgol sylweddol i symud ymlaen yn llwyddiannus drwy'r Diploma.

15. Trwy gydol y flwyddyn, mae hanesion dysgwyr unigol wedi parhau i ddangos effaith drawsnewidiol y Diploma Mynediad i AU. Un enghraifft o'r fath yw Ellie Nancarrow, a raddiodd o Ganolfan Brifysgol Reaseheath gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Nyrsio Milfeddygol, ar ôl cychwyn ei thaith ar gwrs Mynediad i AU. Roedd Ellie wedi cael trafferth mewn addysg yn y gorffennol ac wedi gadael y coleg heb y cymwysterau oedd eu hangen arni. Felly, defnyddiodd Ellie y Diploma Mynediad i AU fel llwybr yn ôl i addysg, gan ddarganfod hyder a photensial academaidd newydd. Dyma ddywedodd am ei chynnydd: "Ni chredais erioed y byddwn i'n ddigon clyfar i astudio Nyrsio Milfeddygol. Felly roeddwn wrth fy modd pan gefais fy nerbyn ar y cwrs gradd." Aeth Ellie yn ei blaen yn llwyddiannus i mewn i addysg uwch, cwblhau lleoliadau gwaith proffesiynol, cael swydd cyn iddi raddio, a chymhwyso fel nyrs filfeddygol gofrestredig. Mae ei hanes hi'n un o enghreifftiau lu o'r cyfleoedd i weddnewid bywyd y mae Mynediad i AU yn eu creu i ddysgwyr sy'n ceisio cyflawni eu huchelgeisiau.[1]

1 Mae ar gael ar https://www.accesstohe.ac.uk/real-stories ac https://www.accesstohe.ac.uk/news-events. (yn y Saesneg yn unig).

Rhan 1: Cywirdeb – cynnal hyder yn y Diploma

Gweithredu'r Cynllun Cydnabod diwygiedig

16. Un garreg filltir bwysig yn 2025-26 oedd gweithredu Cynllun Cydnabod diwygiedig QAA ar gyfer Mynediad i AU a chwblhawyd y cylch llawn cyntaf o drwyddedu Asiantaethau DMiAU o dan y fframwaith diwygiedig. O dan y Cynllun diwygiedig, a gymeradwywyd gan Fwrdd QAA ym mis Mawrth 2025, cyflwynwyd amodau rheoleiddiol mwy eglur a chymesur, cryfhawyd y disgwyliadau o ran llywodraethu a darparu data, atgyfnerthwyd y trefnau monitro seiliedig ar risgiau, a diweddarwyd y trefniadau trwyddedu.

17. Yn rhan o'r gwaith hwn yn 2025-26, cafodd pob un o'r naw Asiantaeth DMiAU drwyddedig eu hailasesu yn erbyn 23 o amodau rheoleiddiol newydd, yn cynnwys llywodraethu, sicrhau cynaliadwyedd ariannol, goruchwylio darparwyr, datblygu cymwysterau, asesu a dyfarnu (gwelwch Atodiad B). Mae hyn wedi cryfhau'r sicrwydd bod y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddilysu a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU yn meddu ar y systemau, yr adnoddau a'r trefnau rheoli sy'n angenrheidiol i sicrhau safonau a diogelu'r dysgwyr. Dyfarnwyd y drwydded safonol am gyfnod o bum mlynedd i wyth Asiantaeth DMiAU, ond rhoddwyd trwydded am gyfnod dilysrwydd byrrach o dair blynedd i un o'r Asiantaethau DMiAU o ystyried y risgiau a welwyd oedd yn gofyn goruchwyliaeth agosach.

18. Cafodd y broses ail-drwyddedu ei chraffu'n estynedig gan y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU)[2], a asesodd a oedd yr argymhellion trwyddedu'n gadarn ac yn gymesur ac wedi eu seilio ar dystiolaeth cyn gwneud argymhellion i Fwrdd QAA i gymeradwyo trwyddedau.

19. Yn ogystal â phenderfyniadau trwyddedu unigol, defnyddiodd y Pwyllgor RhThrMiAU dystiolaeth o'r cylch ail-drwyddedu cyfan i ganfod unrhyw risgiau sy'n codi, themâu cyffredin ac esiamplau o arferion effeithiol o bob rhan o'r sector Mynediad i AU.

2 Mae Atodiad A: Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor RhThrMiAU

> Mae'r Cynllun Cydnabod newydd a gyflwynwyd, ynghyd â'r broses a gwblhawyd yn llwyddiannus o ail-drwyddedu pob un o'r Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU, yn garreg filltir bwysig yn y gwaith o reoleiddio Mynediad i AU. Drwy greu fframwaith wedi'i seilio fwy ar egwyddorion sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i risgiau, mae'r Cynllun yn galluogi i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar oruchwyliaeth strategol, risgiau sy'n dod i'r amlwg a datblygiad y Diploma Mynediad i AU yn y tymor hir, gan gynnal hyder yn ei ansawdd, ei safonau a'i ddeilliannau. O ganlyniad, mae'n cryfhau ein gallu i sicrhau bod y Diploma'n parhau i ddarparu llwybr dibynadwy amgen o safon uchel i mewn i addysg uwch, er mwyn cefnogi oedolion cymwys o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gael cyfleoedd i gyflawni eu potensial academaidd."
>
> **Yr Athro Rachid Hourizi, Cyfarwyddwr yr Institute of Coding (IoC), aelod o Fwrdd QAA a Chadeirydd ei Bwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU**

Trwyddedu a goruchwylio Asiantaethau DMiAU

20. Yn rhan o'r Cynllun Cydnabod diwygiedig, cyflwynwyd trwyddedau cyfnod penodol er mwyn creu dull rheoleiddio mwy eglur sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i risgiau. Trwyddedau am gyfnod o bum mlynedd yw'r drefn ddiofyn erbyn hyn lle mae hyder mewn cydymffurfiad a gwytnwch ariannol, tra bo modd defnyddio cyfnodau dilysrwydd byrrach lle mae angen craffu ychwanegol. Mae'n bwysig nodi nad yw cyfnod dilysrwydd y drwydded yn cyfyngu ar allu QAA i ymyrryd, os bydd risgiau'n dod i'r amlwg, drwy drefnau monitro manylach, gorfodi unrhyw amodau penodol ar y drwydded, ei hatal dros dro neu ei thynnu yn ei hôl.

21. O ganlyniad i'r broses ail-drwyddedu hefyd, dysgwyd gwybodaeth bwysig drwy'r system gyfan. Roedd canfyddiadau'r asesu'n dangos dealltwriaeth dda o'r mwyafrif o feysydd y fframwaith rheoleiddio ac yn dangos bod y rheoleiddio hwn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws yr Asiantaethau DMiAU. Mewn meysydd sy'n ymwneud â monitro, cyflwyno data a dyfarnu cymwysterau, gwelwyd lefelau arbennig o uchel o gydymffurfiad. Pan oedd problemau'n codi, roedden nhw'n ymwneud â threfnau llywodraethu, rheoli cyfundrefnol a phrosesau gweithredol penodol, yn hytrach na bod yn bryderon am safonau academaidd neu ddeilliannau dysgu.

22. Un canlyniad arbennig o werthfawr oedd adnabod problemau sy'n gyffredin i'r sector gyfan yn ymwneud â nodau masnach, trefnau cwyno a threfniadau trosglwyddo cyrsiau. Mewn ymateb i'r canfyddiadau hynny, rhoddodd QAA ganllawiau newydd i Asiantaethau DMiAU am sicrhau bod y darparwyr yn rhoi gwybodaeth eglur i'w dysgwyr [Provider Transparency and Student Information][3], er mwyn eu helpu i gryfhau eu goruchwyliaeth ar eu deunyddiau marchnata a'u gwybodaeth i ddysgwyr. Ers hynny, mae nifer o'r Asiantaethau DMiAU wedi gwneud adolygiadau cynhwysfawr o'u trefniadau, gan ostwng y risgiau posibl i'r dysgwyr a gwella cysondeb ar draws y sector.

3 Mae'r canllawiau wedi eu cyhoeddi ar y wefan SharePoint i ddarparwyr Mynediad i AU, a byddant ar gael i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt.

Monitro, sicrhau a gorfodi cydymffurfiad

23. Yn ôl y Cynllun Cydnabod, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy i QAA. Hysbyswyd QAA am 33 o ddigwyddiadau i gyd ar draws chwe Asiantaeth DMiAU yn 2025-26. Prif feysydd y digwyddiadau hyn oedd camymddwyn academaidd a phrosesau gweinyddu sy'n ymwneud â chofrestru ac ardystio. Cafwyd adroddiad gan ddwy Asiantaeth DMiAU am gofrestriadau hwyr. Dim ond un Asiantaeth DMiAU a roddodd wybod am wallau ardystio oedd yn deillio o wallau gweinyddu gan ddarparwyr wrth gyflwyno canlyniadau. Roedd yr achosion o gamymddwyn yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud yn bennaf â llên-ladrad gan ddysgwyr ac achosion lle nad oedd darparwyr wedi glynu'n gywir at reoliadau QAA sy'n llywio'r broses ailgyflwyno, fel sydd wedi eu disgrifio yn Adran C y Cynllun Graddio Mynediad i AU. Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu ailgyflwyno os nad yw'r deilliannau dysgu wedi cael eu cyflawni ond nid ydynt yn caniatáu i ddysgwyr ailgyflwyno eu gwaith dim ond er mwyn gwella graddau.

24. Gwelwyd digwyddiadau yn ymwneud â defnyddio nodau masnach QAA yn anghywir neu wybodaeth gyhoeddus gamarweiniol mewn pedair Asiantaeth DMiAU.

25. Derbyniodd QAA bedair cwyn o dan y Cynllun Pryderon ar gyfer Mynediad i AU. Dim ond un gŵyn oedd yn ymwneud â Diplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA ond nid oedd hon yn gymwys i dderbyn ystyriaeth o dan y Cynllun ar adeg y cyflwyniad. Roedd dwy o'r cwynion eraill yn ymwneud â darpariaeth gan ddarparwyr Mynediad i AU nad oedd yn ddarpariaeth Mynediad i AU. Roedd un gŵyn yn ymwneud ag astudiaeth brifysgol.

26. Ni chychwynnwyd unrhyw ymchwiliadau yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26. Fodd bynnag, parhaodd monitro ychwanegol – a nodwyd mewn adroddiad ymchwilio a gymeradwywyd 2024 – tan fis Ebrill 2026 pan gadarnhawyd bod yr achos wedi dod i ben. O ganlyniad i ailasesiad a wnaed yn 2025-26 o'r trwyddedau, bydd swyddogion yn monitro un o'r Asiantaethau DMiAU yn fanylach.

Nodau masnach, eglurder a threfnau diogelu dysgwyr

27. Mae diogelu enw da'r Diploma Mynediad i AU yn parhau i fod yn un o elfennau craidd swyddogaeth reoleiddio QAA. Mae QAA yn berchen ar y nodau masnach cofrestredig 'Mynediad i Addysg Uwch' a 'Mynediad i AU', yn ogystal â Manyleb y Diploma a'r brandiau cysylltiedig. Dim ond mewn perthynas â chymwysterau a ddatblygir, a ddilysir ac a ddyfernir drwy Asiantaethau DMiAU sydd wedi eu trwyddedu gan QAA y ceir defnyddio'r termau gwarchodedig hyn. Felly, nid mater o reoli brand yn unig yw amddiffyn nodau masnach; mae'n ddull allweddol o ddiogelu dysgwyr, cynnal safonau cenedlaethol a chynnal hyder darparwyr addysg uwch yn y Diploma. Trwy atal cyrsiau heb eu rheoleiddio rhag cael eu marchnata fel rhai 'Mynediad i AU', mae'r nod masnach yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu teimlo'n hyderus yn y ffaith bod pob cymhwyster sydd â'r teitl 'Mynediad i AU' yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn atebol i oruchwyliaeth reoleiddiol gan QAA.

28. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd gwaith QAA i fynd i'r afael â chamddefnyddio'r nod masnach Mynediad i AU ac i sicrhau bod cyfeiriadau at y Diploma'n parhau'n gywir a chyson. Fodd bynnag, mae cyflwyniad y Cynllun Cydnabod diwygiedig wedi ehangu'r ffocws rheoleiddiol y tu hwnt i amddiffyn nodau masnach yn unig. Mae'r Cynllun yn rhoi mwy o bwyslais ar eglurder, trefnau diogelu defnyddwyr ac ansawdd y wybodaeth a roddir i'r dysgwyr cyfredol a darpar ddysgwyr, gan gydnabod bod gwybodaeth eglur a chywir yn hanfodol i wneud penderfyniadau deallus a chyfranogi'n llwyddiannus.

29. Yn rhan o'r gweithredu, cyhoeddodd QAA ganllawiau i'r Asiantaethau DMiAU am sicrhau bod y darparwyr yn rhoi gwybodaeth eglur i'w dysgwyr. Mae'r canllawiau'n atgyfnerthu'r egwyddor y dylai dysgwyr dderbyn gwybodaeth sy'n glir, yn gywir, yn amserol ac nad yw'n gamarweiniol, drwy gydol eu taith ddysgu, o'r ymholiad cychwynnol hyd nes byddant wedi cwblhau eu cyrsiau. Mae'n dangos beth yw'r disgwyliadau o ran ystyried risgiau wrth oruchwylio gweithgareddau marchnata a chyfathrebu'r darparwyr, yn cynnwys gwefannau, prosbectysau, hysbysebu, y cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau eraill i ddysgwyr. Wrth ddechrau gweithredu'r canllawiau, gwelwyd nifer o achosion lle'r oedd angen gwella'r wybodaeth a roddir gan y darparwyr, gan annog Asiantaethau DMiAU i adolygu'r trefniadau ar draws eu rhwydweithiau darparwyr a chryfhau'r oruchwyliaeth ar y cyfathrebu â dysgwyr.

Edrych ymlaen

30. Yn ystod 2026-27, bydd adolygiad thematig seiliedig ar risgiau o ddarpariaeth Mynediad i AU o bell ac ar-lein yn archwilio pa mor effeithiol y mae'r darparwyr a'r Asiantaethau DMiAU yn cefnogi eu dysgwyr drwy gydol eu taith ddysgu. Mae hyn yn adlewyrchu'r twf sylweddol mewn darpariaeth Mynediad i AU o bell ac ar-lein, y defnydd cynyddol o blatfformau dysgu digidol a gwasanaethau gyda chymorth DA, a'r gofyniad i sicrhau bod trefniadau rheoleiddio'n parhau i weithio'n effeithiol o ran diogelu dysgwyr a chynnal cywirdeb y Diploma wrth i'r dulliau darparu ddatblygu. Bydd yr adolygiad yn archwilio ansawdd ac eglurder y wybodaeth gyn-gofrestru, y cymorth i ddysgwyr a'r cyfathrebu â nhw, yr ymwybyddiaeth o hawliau a sut i fynd ati i leisio pryderon, trefniadau ar gyfer canfod a chefnogi'r dysgwyr hynny sydd mewn perygl o golli diddordeb, ac effeithiolrwydd y trefnau diogelu dysgwyr. Bydd hefyd yn archwilio'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dulliau darparu ar-lein, pennu esiamplau o arferion effeithiol, ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i ganllawiau, trefniadau monitro neu ddulliau rheoleiddio. Bydd y canfyddiadau'n hysbysu gweithgareddau rheoleiddio, canllawiau a gwaith gwella yn y dyfodol ar draws y sector Mynediad i AU.

Sicrhau cynaliadwyedd ariannol

31. Mae gwytnwch ariannol yn rhan bwysig o ystyriaethau diogelu dysgwyr. Os bydd busnes darparwr neu asiantaeth ddilysu'n methu, byddai hynny'n tarfu ar astudiaethau a chynnydd y dysgwyr ac ar eu gallu i gyflawni eu cymhwyster. Felly, mae'r asesiad manylach a gyflwynwyd drwy'r broses ail-drwyddedu'n rhan o drefnau ehangach QAA i ganfod unrhyw risgiau sy'n codi ac i ddiogelu buddiannau'r dysgwyr.

32. Roedd y broses ail-drwyddedu'n cynnwys asesiad mwy systematig o wytnwch ariannol. Roedd QAA yn dadansoddi cyfrifon archwiliedig, cronfeydd wrth gefn, hylifedd, solfedd a rhagolygon ariannol, yn ogystal â pherfformiad gweithredol a threfniadau llywodraethu. Nid oedd y ffocws ar gyrraedd trothwyon ariannol sefydlog, yn hytrach canolbwyntiwyd ar roi sicrwydd rhesymol y byddai dysgwyr yn gallu cwblhau eu cyrsiau a derbyn eu cymwysterau.

33. Canfu'r asesiad fod y mwyafrif llethol o Asiantaethau DMiAU yn dangos lefel o wytnwch ariannol sy'n amrywio o ddigonol i gryf, gyda chronfeydd iach yn gefn iddynt, trefniadau llywodraethu cadarn a chynlluniau strategol cryf. Lle canfuwyd risgiau, cafodd y rhain eu rheoli drwy ymatebion rheoleiddiol cymesur. Mae'r dull hwn yn cryfhau trefnau diogelu dysgwyr, gan sicrhau bod y trefnau rheoleiddio'n parhau'n gymesur ac yn ystyried risgiau.

Cynnal arfer gorau mewn rheoleiddio

34. Mae rheoleiddio'r system Mynediad i AU yn swyddogaeth gyhoeddus bwysig sy'n helpu i gynnal hyder yn y Diploma, diogelu dysgwyr a chefnogi canlyniadau cadarnhaol ar draws y sector. Nod y Cynllun Cydnabod yw darparu fframwaith sy'n gymesur, sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar weithio er budd y cyhoedd.

35. Hysbysir dull QAA gan egwyddorion cydnabyddedig o arfer gorau mewn rheoleiddio, yn cynnwys egwyddorion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) o arfer gorau mewn trwyddedu a chaniatáu [Best Practice Principles for Licensing and Permitting], a chod y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynhyrchion (OPSS) i gyrff rheoleiddio [Regulators' Code].[4] Mae'r fframweithiau hyn yn pwysleisio y dylai trefnau rheoleiddio fod yn eglur, ystyried risgiau a chanolbwyntio ar ddeilliannau, ac y dylent anelu ymdrechion rheoleiddio at y mannau hynny lle mae eu hangen fwyaf. Hefyd, maen nhw'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu'n adeiladol, rhoi canllawiau clir a defnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniadau deallus.

36. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu creu amgylchedd rheoleiddiol lle mae Asiantaethau DMiAU yn cael eu cefnogi i ddeall a bodloni gofynion rheoleiddiol, gan gynnal goruchwyliaeth drwyadl ar ansawdd, safonau a threfnau diogelu dysgwyr. Mae QAA yn ceisio cyfuno sicrhad, arweiniad ac ymgysylltiad ag ymyriadau cymesur lle gwelir risgiau. Ein nod yw nid yn unig ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfiad ond hefyd gefnogi cydymffurfiad, rhagweld risgiau a lleihau'r tebygolrwydd o fethiant rheoleiddiol.

37. Mae'n rhaid i drefnau rheoleiddio effeithiol barhau i esblygu mewn ymateb i newidiadau yn y tirlun addysg ehangach. Mae datblygiadau megis dulliau darparu digidol, deallusrwydd artiffisial, dulliau newydd o gefnogi dysgwyr, blaenoriaethau polisi sy'n newid a dulliau darparu sy'n datblygu, oll yn peri cyfleoedd a heriau i'r Diploma Mynediad i AU. Felly, un o elfennau hanfodol arferion rheoleiddio da yw cynnal fframwaith rheoleiddio ymatebol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

38. Yn ystod 2026-27, bydd QAA yn adolygu i ba raddau y mae'r Cynllun Cydnabod yn parhau i adlewyrchu egwyddorion cydnabyddedig o arfer gorau mewn rheoleiddio. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw'r Cynllun o ran:
    - alinio'r gweithgareddau rheoleiddio â'r deilliannau a fwriedir;
    - mabwysiadu dull cymesur seiliedig ar risgiau;
    - cefnogi Asiantaethau DMiAU i gydymffurfio a gwella;
    - cynnal canllawiau clir, hygyrch a chyson;
    - ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid;
    - hybu eglurder, tegwch ac atebolrwydd; a
    - pharhau i fod yn ymatebol i ddatblygiadau yn y dyfodol.

---

4 OECD (2025) Best Practice Principles for Licensing and Permitting: How to Manage Risks While Supporting Growth. Paris: OECD Publishing, sydd ar gael ar https://www.oecd.org/en/publications/2025/11/best-practice-principles-for-licensing-and-permitting_aee48c02.html. Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynhyrchion (OPSS) (2014) Regulators' Code. Llundain: Llywodraeth y DU, sydd ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/regulators-code

39. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod y Cynllun Cydnabod yn parhau i gefnogi dysgwyr, darparwyr ac Asiantaethau DMiAU yn effeithiol, gan gynnal hyder yng nghywirdeb ac ansawdd y Diploma Mynediad i AU a'i gynaliadwyedd yn y tymor hir.

Casgliad

40. O'u cymryd gyda'i gilydd, trwy weithredu'r Cynllun Cydnabod, cwblhau'r broses o ail-drwyddedu'r Asiantaethau DMiAU, cryfhau'r trefnau diogelu dysgwyr, gwella'r oruchwyliaeth ar wytnwch ariannol ac ymrwymiad parhaus i arfer gorau mewn rheoleiddio, atgyfnerthwyd yr hyder yn y Diploma Mynediad i AU. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi sicrwydd bod y safonau'n parhau'n gadarn, bod y trefnau rheoleiddio'n parhau'n gymesur, a bod y dysgwyr yn parhau i gael eu diogelu ymhob rhan o'r system.



Rhan 2: Cyfle – cefnogi dysgwyr i symud ymlaen ac i lwyddo

41. Trwy naw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU') wedi eu trwyddedu a mwy na 250 o ddarparwyr, darperir Diplomâu Mynediad i AU i oddeutu 35,000 o ddysgwyr bob blwyddyn, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gyda'i gilydd, mae'r darparwyr yn cynnig bron i 1,200 o gyrsiau Diploma sy'n cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch mewn amrywiaeth eang o feysydd astudio a meysydd proffesiynol.

42. Mae cyfres gyflawn o ddata ac ystadegau'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, ac mae crynodeb yn Atodiad C).

43. Heblaw ei fod yn nodi'n wahanol, mae'r data ystadegol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2024-25. Mae hyn yn adlewyrchu amseriad y casglu a chyflawni data ar draws y system Mynediad i AU. Mae'r Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') yn cyflwyno data blynyddol am ddysgwyr a chymwysterau i QAA ar ôl diwedd pob blwyddyn academaidd, sy'n golygu na fydd data cynhwysfawr ar gyfer 2025-26 ar gael tan ar ôl adroddiad data blynyddol yr Asiantaeth DMiAU ym mis Rhagfyr 2026.

44. Yn yr un modd, fesul blwyddyn academaidd, adroddir ar ddata am gynnydd a chanlyniadau a dderbynnir o ffynonellau allanol, yn cynnwys UCAS a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Mae'r wybodaeth hon felly'n adlewyrchu'r gyfres ddata ddiweddaraf wedi'i dilysu sydd ar gael sef, ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, cylch 2023-24 (yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) a blwyddyn academaidd 2024-25 (UCAS). Bydd data 2024-25 yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn cael eu derbyn yn hydref 2026, a bydd y data yma'n cael eu defnyddio i ddiweddaru'r ystadegau ar y we.

45. Trwy gydol yr adroddiad hwn, dylid deall y cyfeiriadau at gofrestriadau, cyrhaeddiad, cynnydd a nodweddion demograffig dysgwyr fel cyfeiriadau sy'n ymwneud â'r gyfres ddata gyflawn ddiweddaraf sydd ar gael yn hytrach na'r cyfnod yr adroddir amdano yn yr adroddiad rheoleiddiol blynyddol ehangach.

Cyfranogaeth a darpariaeth

46. Mae data monitro cenedlaethol am Asiantaethau DMiAU ar gyfer 2024-25 yn dangos tuedd o ostyngiadau parhaus yn y nifer o ddysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau Mynediad i AU. Cafwyd gostyngiad o fwy na 36,000 yn 2019-20 i 34,790 yn 2024-25, sef gostyngiad o 4.2% dros bum mlynedd. Er bod y gostyngiad yn adlewyrchu heriau ehangach o ran newidiadau demograffig a chyfranogiad mewn addysg i oedolion ac addysg bellach, mae'r tirlun darparwyr wedi parhau'n sefydlog. Yn 2024-25, darparodd 256 o ddarparwyr cymeradwy gyrsiau Mynediad i AU, heb unrhyw newid net yn y nifer o ddarparwyr o un flwyddyn i'r nesaf.

47. Cynyddodd y nifer o gyrsiau Mynediad i AU i 1,191 yn 2024-25, sef cynnydd o 4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod y darparwyr, er gwaethaf amrywiadau yn y galw gan ddysgwyr, yn parhau i fuddsoddi mewn cynnal a datblygu cyfleoedd i symud ymlaen ar draws y meysydd astudio a'r rhanbarthau, gan gefnogi dewis y dysgwyr a'r ymatebolrwydd i'r galw am sgiliau yn y rhanbarth a'r wlad.

48. Mae'r Diploma Mynediad i AU yn parhau i wneud cyfraniad pwysig tuag at y blaenoriaethau o ran sgiliau ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Rhaglenni sy'n gysylltiedig ag iechyd yw'r maes mwyaf o ddarpariaeth o bell ffordd o hyd, ochr yn ochr â nifer sylweddol o gyrsiau yn y gwyddorau cymdeithasol, gwyddoniaeth, addysg, busnes a pheirianneg. Mae'r meysydd astudio hyn yn cefnogi symudiad i fyny i gyrsiau addysg uwch a gyrfaoedd proffesiynol sy'n bwysig i'r gwasanaethau cyhoeddus, twf economaidd a datblygiad y gweithlu.

Siart 1: Nifer y cyrsiau a gynigir (2024-25) fesul Maes Pwnc Sector



Enw Pwnc Haen	Nifer y cyrsiau a gynigir
Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal	524
Gwyddorau cymdeithasol	180
Gwyddoniaeth a mathemateg	134
Busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith	97
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	62
Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi	55
Addysg a hyfforddiant	53
Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu	29
Amaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid	28
Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant	23
Hanes, athroniaeth a diwinyddiaeth	11
Hamdden, teithio a thwristiaeth	9
Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	2

Canlyniadau a chynnydd y dysgwyr

49. Mae'r cyfraddau cyflawni'n parhau'n gryf ar draws y sector, ac mae'r deilliannau graddio'n parhau i fod yn gyson yn dilyn y trosglwyddiad o saith disgrifydd gradd i dair safon raddio. Yn 2024-25, dyfarnwyd 17,080 o Ddiplomâu, llwyddodd 93% o'r dysgwyr a gwblhaodd eu cyrsiau i ennill y Diploma, a chafodd 14.8% o'r dysgwyr broffil graddau 'Rhagoriaeth' i gyd. Yn ogystal, cyflawnodd 42.8 o'r dysgwyr broffil 1 (graddau sy'n cyfateb â AAB neu'n uwch mewn Lefel A), gan ddangos mor effeithiol yw'r Diploma o hyd fel paratoad ar gyfer astudiaethau addysg uwch.

50. Mae symud y dysgwyr ymlaen i addysg uwch yn parhau i fod yn un o gryfderau arbennig y Diploma. Er bod teithiau'r dysgwyr yn gynyddol amrywiol ac y gallant gynnwys seibiannau yn yr astudio neu ohirio cynnydd, mae data UCAS yn dangos bod 18,230 o ddysgwyr â chefndir Mynediad i AU wedi eu derbyn i addysg uwch yn ystod cylch 2025. Mae'r data am Asiantaethau DMiAU hefyd yn dangos dyheadau cryf i symud ymlaen ymysg y carfannau cyfredol, gyda 78.8% o'r dysgwyr sydd wedi cyflawni'r Diploma'n bwriadu symud ymlaen i addysg uwch fel cam nesaf eu taith.

Deall y dysgwyr heddiw

51. Mae'r data am gofrestriad dysgwyr yn amlygu nifer o newidiadau pwysig ym mhoblogaeth y dysgwyr.

52. Mae proffil oedran y dysgwyr yn parhau i newid, ac mae'r rheiny sy'n iau na 25 oed yn cyfrif am gyfran gynyddol (52.6%) o gofrestriadau, tra bo'r gyfranogaeth ymysg dysgwyr hŷn wedi dirywio'n raddol. Mae hyn yn awgrymu bod Mynediad i AU yn darparu ar gyfer poblogaeth ddysgwyr gynyddol amrywiol, gan gyfuno ei rôl draddodiadol fel llwybr yn ôl i addysg i ddysgwyr hŷn gyda phwysigrwydd cynyddol fel llwybr cynnydd i oedolion iau.

53. Mae'r gyfran o ddysgwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi o 18.1% yn 2019-20 i 22.5% yn 2024-25. Mae'r mesur cenedlaethol a ddefnyddir ar hyn o bryd i asesu anfantais yn defnyddio'r Mynegai Amddifadedd Lluosog, sef mesuriad wedi'i hen sefydlu sy'n seiliedig ar ardaloedd. Am ei fod yn adlewyrchu nodweddion yr ardaloedd lle mae'r dysgwyr yn byw yn hytrach na'u hamgylchiadau unigol, mae'n debygol o ddangos rhan yn unig o'r ystod lawn o heriau sy'n wynebu dysgwyr Mynediad i AU, sy'n cynnwys cyfrifoldebau gofalu, cyflyrau iechyd, profiadau o darfu ar addysg a chaledi ariannol, nad oes modd eu hadnabod o ddata cod post yn unig.

54. Mae patrymau mewn cofrestriad hefyd yn dangos amrywiaeth gynyddol ym mhoblogaeth y dysgwyr. Mae cofrestriadau o blith dysgwyr Asiaidd, du neu aml-ethnig wedi parhau i gynyddu, a dysgwyr sy'n ferched yw'r garfan fwyaf o hyd ar draws y sector. Mae'r data am anabledd yn awgrymu bod y gyfranogaeth yn parhau'n sefydlog er bod cofnod anabledd cyfran sylweddol o'r dysgwyr yn dal i fod yn anhysbys, gan ddangos bod angen gwell dealltwriaeth a data o well safon.



Darllen am hanes Nicola Ibbotson

55. Er gwaethaf y gostyngiadau cymedrol yn nifer cyffredinol y cofrestriadau, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y Diploma Mynediad i AU yn parhau i ddarparu canlyniadau cryf i ddysgwyr. Mae'r cyfuniad o nifer y darparwyr sefydlog, y cynnydd mewn argaeledd cyrsiau, cyfraddau cyflawni cryf a'r ffaith bod y dysgwyr yn parhau i symud ymlaen i addysg uwch, yn dangos bod yr hyder yn y cymhwyster yn parhau ymysg dysgwyr, darparwyr a sefydliadau addysg uwch.

Cryfhau ein dealltwriaeth o deithiau'r dysgwyr

56. Yn ystod 2025-26, dechreuodd QAA waith ar 'fap llwybr' data a thystiolaeth i gefnogi cyflwyniad y Cynllun Cydnabod ac i gryfhau'r ddealltwriaeth o gyfranogiad, cynnydd a llwyddiant y dysgwyr.

57. Mae'r map llwybr yn cael ei lunio i ddarparu dull cymesur, seiliedig ar dystiolaeth, o werthuso pa mor effeithiol yw'r system Mynediad i AU. Yn hytrach na chreu gofynion ychwanegol sylweddol am adroddiadau, mae'n anelu at wneud gwell defnydd o'r data a'r wybodaeth gyfredol, a sylwadau rhanddeiliaid, i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.

58. Un ffocws arbennig o'r map llwybr fydd deall teithiau'r dysgwyr yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys canfod patrymau mewn cyfranogaeth, cynnydd ac ymadawiadau â chyrsiau, archwilio amrywiadau ar draws grwpiau o ddysgwyr a rhanbarthau, a datblygu sail dystiolaeth fwy eglur am gyfraniad Mynediad i AU i ehangu cyfranogaeth, hybu symudedd cymdeithasol a datblygu'r gweithlu.

59. Wrth i'r broses o weithredu'r Cynllun Cydnabod barhau, bydd y map llwybr yn cefnogi dull mwy soffistigedig o ddadansoddi deilliannau dysgu, llwybrau cynnydd a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn helpu QAA, Asiantaethau DMiAU a darparwyr i ddeall yn well ymhle mae dysgwyr yn llwyddo, ymhle mae rhwystrau'n parhau, a sut y gall y Diploma Mynediad i AU barhau i gefnogi cyfleoedd i genedlaethau o ddysgwyr yn y dyfodol

Rhan 3: Perthnasedd – sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn parhau'n

Deall sector Mynediad i AU sy'n newid

60. Yn ystod 2025-26, roedd cyflwyniad y Cynllun Cydnabod wedi rhoi'r darlun mwyaf cynhwysfawr i QAA o'r sector Mynediad i AU dros y blynyddoedd diwethaf, gan dynnu ynghyd ddata am berfformiad, y darparwyr, y dysgwyr a'r farchnad o'r holl Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') trwyddedig.

61. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod Mynediad i AU yn parhau i fod yn system amrywiol ond sefydlog. Er bod cofrestriadau dysgwyr wedi gostwng i raddau dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r data ar lefel yr Asiantaethau DMiAU yn dangos amrywiaeth sylweddol mewn twf, dulliau darparu a strategaeth sefydliadol. Mae rhai sefydliadau wedi ehangu'n gyflym, tra bod eraill wedi cyfuno darpariaeth neu wedi gweld gostyngiad mewn cofrestriadau. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod y sector yn addasu i newidiadau ym mhatrwm y galw yn hytrach na phrofi dirywiad systemig. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyffredinol mewn cofrestriadau'n dangos bod yr addasiad wedi bod yn anwastad, ac mae'n codi cwestiwn pwysig – a yw'r sector yn datblygu'n ddigon cyflym i ddarparu ar gyfer y newid yn newisiadau a disgwyliadau'r dysgwyr. Yr her dros y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau bod arloesiad a dulliau darparu newydd yn cefnogi twf cynaliadwy a hefyd hyder parhaus yn y cymhwyster.

62. Mae'r deilliannau dysgu'n parhau'n gryf. Mae symud y dysgwyr ymlaen i addysg uwch yn parhau i fod yn un o gryfderau arbennig y Diploma Mynediad i AU, tra bod cyfraddau cyflawni'n parhau'n sefydlog ar draws y sector. Er bod y cyfraddau cadw'n amrywio rhwng y darparwyr a'r Asiantaethau DMiAU, mae'r amrywiaeth hon yn aml yn adlewyrchu'r gwahaniaethau ym mhoblogaethau'r dysgwyr, dulliau darparu a phatrymau mewn cofrestriad yn hytrach na phryderon am ansawdd neu safonau.

63. Mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu newid ym mhoblogaeth y dysgwyr. Yn ogystal ag oedolion sy'n dychwelyd i addysg, mae nifer gynyddol o ddysgwyr iau'n cofrestru ar gyfer y Diploma, tra bo darparwyr yn ymateb i gymhlethdod cynyddol anghenion y dysgwyr a heriau o ran ehangu cyfranogaeth. Mae gallu'r cymhwyster i gadw'r canlyniadau'n gadarnhaol gan hefyd wasanaethu poblogaeth ddysgwyr sy'n newid yn dangos ei allu i addasu a'i berthnasedd parhaus.

Risgiau a heriau sy'n dod i'r amlwg

64. Er bod y sector yn parhau'n wydn, mae nifer o risgiau strategol yn parhau sydd angen cael eu monitro'n ofalus.

Galw, cyfranogaeth a chynaliadwyedd

65. Mae'r recriwtiad ar draws y sector addysg i oedolion yn parhau i gael ei ddylanwadu gan amgylchiadau economaidd, newid demograffig a threfniadau cyllido sydd wrthi'n datblygu. Gallai gostyngiadau pellach mewn cyfranogaeth ostwng y cyfleoedd i ddysgwyr mewn rhai meysydd, cyfrannu at anghydraddoldeb rhanbarthol mewn mynediad i ddarpariaeth a rhoi pwysau ar gynaliadwyedd rhai o'r darparwyr a'r Asiantaethau DMiAU.

66. Yn ôl y Cynllun Cydnabod, mae gofyn i'r Asiantaethau DMiAU gynnal goruchwyliaeth strategol effeithiol ar eu darpariaeth Mynediad i AU, monitro cofrestriadau a deilliannau'r dysgwyr, a chanfod a lleihau unrhyw risgiau i ansawdd, safonau a chynaliadwyedd cyfundrefnol. Mae QAA yn ategu hyn drwy fonitro tueddiadau'r gyfranogaeth drwy'r sector cyfan, adroddiadau data blynyddol ac ymgysylltiad ag Asiantaethau DMiAU er mwyn canfod risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Dulliau darparu digidol a threfnau diogelu dysgwyr

67. Mae twf cyflym y ddarpariaeth Mynediad i AU o bell ac ar-lein yn parhau i greu cyfleoedd i ehangu cyfranogaeth a gwella hyblygrwydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno heriau newydd i ymgysylltiad dysgwyr, cymorth i ddysgwyr, arferion asesu ac ansawdd y wybodaeth a roddir i ddarpar ddysgwyr. Mae'r defnydd cynyddol o farchnata digidol, trefniadau recriwtio gyda thrydydd parti a chyfathrebu gyda chymorth DA yn atgyfnerthu pwysigrwydd goruchwyliaeth effeithiol a thryloywder.

68. Yn ystod 2026-27, bydd QAA yn gwneud adolygiad thematig seiliedig ar risgiau o ddarpariaeth o bell ac ar-lein, a bydd yn parhau i gryfhau disgwyliadau sy'n ymwneud â sicrhau eglurder y wybodaeth, diogelu'r dysgwyr, goruchwylio'r darparwyr a rheoli risgiau drwy'r Cynllun Cydnabod.

Cynnal hyder yn y safonau

69. Mae hyder yn y Diploma Mynediad i AU yn dibynnu ar weithredu safonau academaidd yn gyson ar draws y sector. Wrth i'r dulliau darparu ddatblygu, bydd QAA yn parhau i fonitro deilliannau graddio, trefniadau safoni, arferion asesu a datblygiad y cymhwyster er mwyn sicrhau bod safonau'n parhau'n gadarn, yn gymaradwy ac y gellir ymddiried ynddynt.

70. Mae QAA yn cynnal goruchwyliaeth ar y safonau drwy ofynion y Cynllun Cydnabod o ran sicrhau, safoni a monitro ansawdd, wedi'i gefnogi gan ddadansoddi deilliannau graddio a data am berfformiad y sector. Yn ystod 2026-27, bydd hyn wedi ei gyflenwi gan adolygiad o'r Cynllun Graddio Mynediad i AU ac adolygiad thematig o ddarpariaeth o bell ac ar-lein i sicrhau bod safonau'n parhau'n gadarn, yn gymaradwy ac y gellir ymddiried ynddynt ar draws y dulliau darparu sydd wrthi'n datblygu.

Cydbwyso arloesiad a rheoleiddio

71. Un her barhaus ar gyfer y Cynllun Cydnabod yw cynnal cydbwysedd priodol rhwng sicrhad rheoleiddiol ac arloesiad. Mae'n rhaid i'r fframwaith ddarparu digon o oruchwyliaeth i ddiogelu dysgwyr a sicrhau safonau gan hefyd barhau'n gymesur, ac osgoi baich dianghenraid a galluogi i Asiantaethau DMiAU a darparwyr ymateb i newidiadau yn nisgwyliadau'r dysgwyr ac mewn technolegau a dulliau dysgu ac addysgu.

72. Bydd QAA yn parhau i adolygu'r Cynllun Cydnabod diwygiedig ac mae'n ymgysylltu'n rheolaidd ag Asiantaethau DMiAU a rhanddeiliaid i sicrhau bod gofynion rheoleiddiol yn parhau'n gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i arloesedd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Amgylchedd polisi sy'n newid

73. Mae'r tirlun polisi addysg ôl-16 yn parhau i esblygu drwy ddiwygiadau i'r sector sgiliau, mentrau dysgu gydol oes, newidiadau mewn trefniadau cyllido a chynnydd mewn gwneud penderfyniadau lleol. Mae'r datblygiadau hyn yn creu cyfleoedd i dyfu ond maent hefyd yn gofyn am ymgysylltiad parhaus er mwyn sicrhau bod Mynediad i AU yn parhau i gyfateb â blaenoriaethau'r llywodraethau ac yn parhau i ddarparu llwybr credadwy a chydnabyddedig i mewn i addysg uwch.



Darllen am hanes Andy Byrne

Cyfleoedd i dyfu a datblygu

74. Ochr yn ochr â'r heriau hyn, mae cyfleoedd sylweddol i ddatblygu Mynediad i AU yn barhaus.

75. Mae datganiadau strategol a gyflwynir gan Asiantaethau DMiAU yn dangos sector sy'n dal yn ymroddedig iawn i ehangu cyfranogaeth, hybu symudedd cymdeithasol a dysgu gydol oes. Ledled y DU, mae'r Asiantaethau DMiAU yn bwriadu cynnal neu ehangu'r ddarpariaeth, yn arbennig mewn meysydd sy'n gysylltiedig â phrinder yn y gweithlu a blaenoriaethau economaidd, yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, technolegau digidol a phynciau STEM, ac yn y gwyddorau bywyd, y sector adeiladu ac mewn diwydiannau gwyrdd.

76. Mae arloesedd digidol yn dod i'r amlwg hefyd fel maes pwysig sydd angen ei ddatblygu. Mae Asiantaethau DMiAU yn buddsoddi'n gynyddol mewn adnoddau dysgu ar-lein, dulliau darparu hybrid a dysgu gyda chymorth technoleg. Ochr yn ochr â hyn, maen nhw'n archwilio sut y gallai deallusrwydd artiffisial gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwricwla, asesu, a sicrhau ansawdd, gan gydnabod bod angen sicrhau cywirdeb academaidd.

77. Mae nifer o'r Asiantaethau DMiAU yn cryfhau eu partneriaethau gyda darparwyr addysg uwch ac yn archwilio llwybrau cynnydd mwy hyblyg, yn cynnwys dysgu modiwlaidd, micro-gymwysterau a chynlluniau darparu arloesol sydd wedi eu llunio i ateb anghenion y dysgwyr sy'n oedolion gan gydbwyso astudiaeth gydag ymrwymiadau teuluol a gwaith.

78. Mae datblygiadau sy'n dod i'r amlwg, megis yr Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn Lloegr, y galw cynyddol am sgiliau uwch, pwyslais cynyddol ar dwf economaidd seiliedig ar le ac adnabod llwybrau dysgu hyblyg yn creu cyfleoedd sylweddol i sicrhau amlygrwydd ac effaith Mynediad i AU mewn blynyddoedd i ddod.

79. O'u hystyried ynghyd, mae'r dystiolaeth yn cyflwyno darlun o sector sy'n hyderus ac yn addasadwy sy'n parhau'n ymroddedig i'w bwrpas craidd gan hefyd ymateb yn rhagweithiol i newidiadau yn anghenion y dysgwyr, y galw am weithwyr a'r blaenoriaethau polisi. Wrth i'r fframwaith trwyddedu diwygiedig ddod yn elfen fewnblanedig, mae rhagor o gyfleoedd i gryfhau llais y dysgwyr, y trefnau diogelu dysgwyr, canlyniadau cydraddoldeb a chyfraniad y Diploma Mynediad i AU er budd y cyhoedd ehangach.

Rhan 4: Dylanwad ac arweiniad rheoleiddiol

Rôl QAA o ran hybu dealltwriaeth pobl o'r Diploma Mynediad i AU

80. Am mai QAA yw'r corff sy'n rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU, mae ganddi rôl bwysig o ran hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o'r cymhwyster. Fodd bynnag, mae'r rôl honno ar wahân i'r rôl o farchnata cyrsiau unigol neu gynhyrchu recriwtiad i ddarparwyr. Nid yw QAA yn hyrwyddo Diplomâu Mynediad i AU, Asiantaethau DMiAU, colegau na phrifysgolion unigol. Nid yw chwaith yn gyfrifol am greu galw gan ddysgwyr na gweithgareddau recriwtio. Gan yr Asiantaethau DMiAU, y darparwyr a'u partneriaid y mae'r cyfrifoldebau hyn.

81. Yn hytrach, rôl QAA yw adeiladu dealltwriaeth y cyhoedd o'r Diploma Mynediad i AU fel cymhwyster a gydnabyddir ac a reoleiddir yn genedlaethol sy'n darparu llwybr wedi'i brofi i mewn i addysg uwch i ddysgwyr sy'n oedolion. Trwy ei swyddogaethau rheoleiddio a thrwy ddod â phobl at ei gilydd, mae QAA yn gweithio i sicrhau bod dysgwyr, cynghorwyr, cyflogwyr, darparwyr addysg uwch, cyrff rheoleiddio a llunwyr polisïau'n cael gwybodaeth gyson, eglur a chywir ynglŷn â beth yw'r cymhwyster, sut mae'n gweithredu a'r cyfleoedd y mae'n eu creu.

82. Mae QAA yn darparu arweiniad i'r system drwy gydlynu adnoddau cenedlaethol ac anfon negeseuon am Fynediad i AU, a thrwy gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector. Mae QAA yn ceisio cryfhau dealltwriaeth pobl o'r system Mynediad i AU gyfan ac atgyfnerthu'r hyder yn safonau'r cymhwyster a'r trefniadau diogelu a sicrhau ansawdd sy'n eu tanategu.

Gweithio gyda chyrff rheoleiddio eraill

83. Mae QAA yn gweithio'n agos â llywodraethau, cyrff rheoleiddio, cyrff arolygu a chyrff eraill yn y sector ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gefnogi gwaith effeithiol o reoleiddio, datblygu polisïau a diogelu dysgwyr. Yn ystod 2025-26, parhaodd QAA i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth o bob rhan o'r system addysg i wneud penderfyniadau rheoleiddiol deallus a sicrhau bod Mynediad i AU yn parhau i gyfateb â datblygiadau ehangach mewn perthynas â chymwysterau, sgiliau ac addysg uwch.

84. Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd QAA yn agos ag Ofqual ar feysydd polisi y mae gan y ddau gorff ddiddordeb ynddynt a goruchwyliaeth reoleiddiol. Gweithiodd QAA â Chymwysterau Cymru hefyd i symud memorandwm cyd-ddealltwriaeth diwygiedig yn ei flaen, a chynyddodd ei hymgysylltiad ag Estyn. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi rhannu gwybodaeth, cadw llygad ar y gorwel a dulliau cydlynol o ymdrin â materion sy'n effeithio ar ddysgwyr a llwybrau cynnydd.

85. Hefyd, parhaodd QAA i gyfrannu tystiolaeth ac arbenigedd i drafodaethau polisi ar draws y DU. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â Medr, Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon, ac ymholiad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol am addysg i oedolion. Trwy gyfrwng y gwaith hwn, tynnodd QAA sylw at gyfraniad Mynediad i AU tuag at ehangu cyfranogaeth, dysgu gydol oes, hybu symudedd cymdeithasol a datblygu'r gweithlu.[5]

86. Yng Nghymru, cyfrannodd QAA at ymgynghoriadau am ddyfodol y sector addysg drydyddol[6] a rhoddodd dystiolaeth i ymholiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru am lwybrau i mewn i hyfforddiant ac addysg ôl-16.[7] Gwnaeth QAA hefyd waith ymchwil a gomisiynwyd gan Medr, gan gyhoeddi'r ddogfen Trosglwyddo o fewn ac i mewn i addysg uwch – Archwiliad o ddulliau ac arferion da, a amlygodd rôl Mynediad i AU mewn cefnogi cynnydd ac ehangu cyfranogaeth.[8]

87. Yng Ngogledd Iwerddon, ymatebodd QAA i ymgynghoriad Adran yr Economi ar ehangu cyfranogaeth mewn addysg uwch, gan ddefnyddio tystiolaeth am y ddarpariaeth Mynediad i AU ymhob rhan o'r DU a nodi cyfleoedd i gryfhau llwybrau cynnydd i oedolion a chryfhau eu cyfranogiad.[9]

Dylanwadu ar ddiwygiadau i drefniadau cyllido a pholisïau

88. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd QAA i ymgysylltu'n agos â'r Adran Addysg yn Lloegr mewn perthynas â sefyllfa bolisi a chyllid y Diploma Mynediad i AU yn y dyfodol. O ystyried cyfraniad hirsefydlog y cymhwyster tuag at gefnogi cynnydd oedolion ac ehangu cyfranogaeth, dadleuodd QAA dros barhau â buddsoddiad y cyhoedd mewn Mynediad i AU am ei fod yn llwybr nodedig a gwerthfawr i mewn i addysg uwch.

---

5 Ewch i https://www.aoc.co.uk/news-campaigns-parliament/work-in-parliament/appg/appg-inquiry-on-adult-education. Lansiwyd yr ymholiad gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol am addysg bellach a dysgu gydol oes ym mis Mawrth 2026, a rhedwyd sesiynau casglu tystiolaeth drwy gydol gwanwyn a haf 2026. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r llywodraeth yn hydref 2026. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r ymholiad yn dal i fynd rhagddo, ac ni chyhoeddwyd ei adroddiad terfynol eto.

6 Ewch i https://www.llyw.cymru/dyfodol-addysg-drydyddol-yng-nghymru-pum-her. Daeth yr alwad am dystiolaeth i ben ym mis Mawrth 2026, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion gydag atodiadau technegol ym mis Awst 2026.

7 Mae cyflwyniad QAA ar gael ar https://business.senedd.wales/documents/s157634/RET%2011%20Quality%20Assurance%20Agency%20for%20Higher%20Education%20QAA.pdf

8 Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) (2025) Trosglwyddo o fewn ac i mewn i addysg uwch – Archwiliad o ddulliau ac arferion da. Mae ar gael ar https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/about-us/qaa25_readiness_to_learn_report-welsh.pdf.

9 Ewch i https://www.economy-ni.gov.uk/consultations/review-approach-widening-participation-higher-education. Rhedodd yr ymgynghoriad o **22 Ionawr** hyd **16 Ebrill 2026**. Nododd Adran yr Economi y byddai ymatebion yn cael eu gwerthuso ac y byddai adroddiad cryno'n cael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, ers hynny mae Adran yr Economi wedi cadarnhau ei bod yn datblygu dull wedi'i adnewyddu o ehangu cyfranogaeth ac yn symud tuag at fframwaith **Cynllun Mynediad**, **Cyfranogaeth a Deilliannau** newydd, sy'n adlewyrchu ffocws cryfach ar fynediad, cynnydd, llwyddiant a chanlyniadau.

89. Wedi hynny yn Lloegr, cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai cymorth ariannol yn parhau i ddysgwyr Mynediad i AU. Bydd dysgwyr 19 oed neu'n hŷn yn parhau'n gymwys i gael Benthyciadau i Ddysgwyr Uwch, yn cynnwys y trefniadau cyfredol y mae gweddillion y benthyciadau'n cael eu diddymu oddi tanynt pan fydd dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau addysg uwch cymwys ac yn eu cwblhau. Hefyd, cadarnhaodd yr Adran Addysg y bydd trefniadau cyllido fel eithriad i ddysgwyr cymwys rhwng 18 a 24 oed yn parhau ar gyfer Diplomâu Mynediad i AU sy'n gysylltiedig â'r gyfres gyntaf o feysydd astudio Lefel V (lefel alwedigaethol) yn Lloegr, o 2027-28 ymlaen.

90. Hefyd, cafwyd datblygiadau cadarnhaol yn ymwneud â'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes. Roedd is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn cydnabod yn eglur y Diploma Mynediad i AU fel esiampl ddangosol o lwybr i mewn i addysg uwch ac yn cadarnhau parhad y trefniadau diddymu benthyciadau. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd parhaus Mynediad i AU yn y tirlun sgiliau a dysgu gydol oes sydd wrthi'n esblygu.[10]

91. Bydd QAA yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraethau ac yn monitro effaith y diwygiadau ehangach, yn cynnwys unrhyw newidiadau yn y trefniadau cyllido a'r trefniadau datganoli yn Lloegr, er mwyn deall eu goblygiadau ar gyfer cyfranogaeth dysgwyr, cynaliadwyedd darparwyr a thwf yn y dyfodol.

Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol

92. Ym mis Ebrill 2026, cyhoeddodd QAA ei phenderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â phrosiect peilot arfaethedig y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol, yn dilyn rhaglen helaeth o waith datblygu, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus.

93. Nod y cymhwyster arfaethedig oedd ymestyn manteision y Diploma Mynediad i AU y tu hwnt i'r DU, drwy ddarparu llwybr cydnabyddedig i mewn i addysg uwch i ddysgwyr tramor sy'n oedolion a thrwy gefnogi cyfleoedd rhyngwladol i symud ymlaen. Ond, yn dilyn asesiad manwl o'i ddichonoldeb a'i risg, daeth QAA i'r casgliad nad oedd y manteision posibl cyn gryfed â'r pryderon am y galw yn y farchnad, cyfleoedd i symud ymlaen, cymhlethdod rheoleiddiol a'r gofynion gweithredol sy'n gysylltiedig â darpariaeth ryngwladol.

94. Er na fydd y prosiect peilot yn symud ymlaen, mae'r gwaith a wnaethpwyd wedi cryfhau'r ddealltwriaeth o farchnadoedd rhyngwladol, cynllun y cymhwyster a blaenoriaethau'r rhanddeiliaid. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r prosiect yn parhau i hysbysu trafodaethau am bolisïau a strategaethau yn y dyfodol.[11]

---

10 Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/lifelong-learning-entitlement-lle-overview/lifelong-learning-entitlement-overview#secondary-legislation

11 Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) (2026) Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: Penderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â'r prosiect peilot arfaethedig, sydd ar gael ar https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/penderfyniad-i-roir-gorau-i-fwrw-ymlaen-ar-prosiect-peilot-arfaethedig.pdf, a QAA (2026) Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: Y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n gweithredu'n rhyngwladol: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, sydd ar gael ar https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/crynodeb-o'r-ymatebion-i'r-ymgynghoriad.pdf.

Rhan 5: Blaenoriaethau o ran Mynediad i AU yn 2026-27

95. Wrth i'r broses o weithredu'r Cynllun Cydnabod barhau, mae QAA yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal hyder yn y Diploma Mynediad i AU, cefnogi dysgwyr i symud ymlaen ac i lwyddo, a sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i ymateb yn effeithiol i anghenion newidiol y dysgwyr a'r sector ac i newidiadau mewn polisïau. Yn ystod 2026-27, bydd ein blaenoriaethau'n parhau i gael eu tywys gan ein tair egwyddor.

Cywirdeb

96. Mae cynnal hyder yn y Diploma yn parhau'n elfen ganolog o genhadaeth reoleiddio QAA. Yn ystod 2026-27, byddwn yn parhau i ymwreiddio'r Cynllun Cydnabod, cyhoeddi'r canllawiau ategol sy'n weddill a chryfhau trefniadau monitro seiliedig ar risgiau. Byddwn yn adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Graddio diwygiedig, yn ystyried effeithiolrwydd a chwmpas y Disgrifwyr Pwnc a gofynion y cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, ac yn gwneud adolygiad thematig o ddarpariaeth o bell ac ar-lein.

97. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiad er budd y dysgwyr a'r cyhoedd, gyda sylw penodol i drefnau diogelu dysgwyr, tryloywder darparwyr, arferion marchnata a defnydd priodol o'r nodau masnach Mynediad i AU. Hefyd, byddwn yn parhau i gryfhau ein defnydd o wybodaeth a thystiolaeth reoleiddiol i sicrhau bod yr oruchwyliaeth yn parhau'n gymesur, yn effeithiol ac yn ymateb i risgiau sy'n codi.

Cyfle

98. Bydd gwella'r ddealltwriaeth o gyfranogiad, cynnydd a llwyddiant y dysgwyr yn ffocws mawr yn ystod y flwyddyn nesaf. Trwy gyhoeddi'r 'map llwybr' data a thystiolaeth, bydd QAA yn cryfhau'r gwaith o ddadansoddi teithiau'r dysgwyr, patrymau mewn cyfranogiad, ymadawiadau, canlyniadau cynnydd ac amrywiaeth ranbarthol. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i ddarganfod a deall 'mannau oer' yn y gyfranogaeth, boed hynny yn ôl daearyddiaeth, maes astudio neu ddemograffeg y dysgwyr.

99. Byddwn yn cryfhau'r ddealltwriaeth o'r dysgwr ac yn archwilio dulliau newydd o ystyried llais y dysgwyr, ymgysylltiad cyn-ddysgwyr a gweithgareddau llysgenhadon dysgwyr. Hefyd, byddwn yn ystyried sut y gall Mynediad i AU roi gwell cefnogaeth i'r dysgwyr hynny sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol ac sy'n eu hatal rhag cyfranogi a symud ymlaen, yn cynnwys cyn-filwyr a'r rhai sydd â phrofiad o'r system gyfiawnder.

100. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, bydd QAA yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch, staff derbyn, grwpiau cenhadaeth a gwasanaethau gyrfaoedd i hybu ymwybyddiaeth pobl o'r Diploma Mynediad i AU a chryfhau cyfleoedd i symud ymlaen. Byddwn yn parhau i archwilio llwybrau cynnydd newydd, yn cynnwys cyfleoedd sy'n codi o'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn Lloegr, prentisiaethau a datblygiadau yng Ngogledd Iwerddon.

Perthnasedd

101. I sicrhau bod Mynediad i AU yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion y dyfodol bydd angen parhau i ymgysylltu â llywodraethau, cyrff rheoleiddio, darparwyr addysg uwch a rhanddeiliaid ehangach. Yn ystod 2026-27, bydd QAA yn cryfhau amlygrwydd Mynediad i AU mewn trafodaethau ar lefel genedlaethol am ddiwygio'r sector sgiliau, dysgu gydol oes, datganoli, ehangu cyfranogaeth a datblygu'r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys parhau i ymgysylltu ag adrannau'r llywodraethau, cyrff rheoleiddio, staff derbyn, gwasanaethau gyrfaoedd a chyrff y sector er mwyn sicrhau bod Mynediad i AU yn cael ei gydnabod fel llwybr pwysig sy'n cefnogi addysg i oedolion, eu cyfranogiad a'u cynnydd.

102. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i hwyluso ymgysylltiad â'r awdurdodau strategol yn Lloegr er mwyn sicrhau bod y llwybrau Mynediad i AU yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau economaidd ac anghenion yn y gweithlu. Hefyd, byddwn yn cryfhau ein cydberthnasau â'r llywodraethau a'r rhanddeiliaid yng Nghymru a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod Mynediad i AU yn parhau i gyfateb â'r blaenoriaethau a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector addysg drydyddol.

103. Mae rôl arweinyddiaeth QAA yn ymestyn y tu hwnt i reoleiddio yn unig. Trwy gyhoeddi dadansoddiadau ar lefel y system a gwybodaeth am y dysgwyr, byddwn yn parhau i gryfhau'r sail dystiolaeth sy'n tanategu'r gwaith o ddatblygu'r Diploma ymhellach ar gyfer y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi dealltwriaeth ddyfnach fwy a mwy o batrymau mewn cyfranogiad, deilliannau dysgu, risgiau a chyfleoedd i wella sy'n dod i'r amlwg. Bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau am y Diploma Mynediad i AU ac yn rhoi dealltwriaeth o faterion megis cynllun cynhwysol cyrsiau, dulliau darparu digidol, addysg i oedolion a defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial.

104. Un datblygiad allweddol yn ystod 2026-27 fydd lansiad y Gymuned Rwydweithio Mynediad i AU ac Addysg i Oedolion i aelodau QAA. Trwy ddod â chydweithwyr at ei gilydd o ddarparwyr Mynediad i AU a sefydliadau sy'n derbyn eu graddedigion, bydd y gymuned yn darparu fforwm ar gyfer rhannu arferion, archwilio'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu dysgwyr sy'n oedolion, a chryfhau dealltwriaeth o symudiad y dysgwyr i mewn i addysg uwch a thrwy addysg uwch. Trwy fentrau cydweithredol o'r fath, ynghyd ag ymgysylltiad parhaus â phartneriaid yn y sector a rhanddeiliaid, bydd QAA yn parhau i sicrhau perthnasedd ac amlygrwydd y Diploma Mynediad i AU a'i gynaliadwyedd yn y tymor hir mewn tirlun addysg a hyfforddiant sydd wrthi'n datblygu.

Edrych ymlaen

105. Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau hyn, bydd QAA yn parhau i gryfhau ei sail dystiolaeth, ei chyfathrebu a'i hymgysylltiad â'r sector.

106. Mae'r rhaglen waith hon yn helpu i sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn dal i fod yn llwybr dibynadwy o safon uchel i mewn i addysg uwch gan hefyd gryfhau ei chyfraniad i ehangu cyfranogaeth, hybu symudedd cymdeithasol, datblygu'r gweithlu a dysgu gydol oes ledled y DU.

Atodiad A: Llywodraethu a chyllidebu

Y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU)

Y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) yw pwyllgor Bwrdd QAA sy'n gyfrifol am oruchwylio Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU, yn cynnwys trwyddedu Asiantaethau DMiAU, goruchwyliaeth reoleiddiol, gweithgareddau monitro a datblygiad parhaus y Diploma Mynediad i AU. O dan awdurdod dirprwyedig gan Fwrdd QAA, mae'r Pwyllgor yn cadw goruchwyliaeth strategol ar y perfformiad rheoleiddiol, yn ystyried risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar draws y system Mynediad i AU, ac yn cynghori ar effeithiolrwydd, perthnasedd a chynaliadwyedd y Cynllun Cydnabod.

Er y byddai disgwyl fel arfer i'r Pwyllgor gyfarfod dair neu bedair gwaith y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor RhThrMiAU bum gwaith yn ystod 2025-26 gan gydnabod y gofynion strategol sylweddol sydd arno. Yn ogystal â'i gyfrifoldebau goruchwylio parhaus, cyflawnodd y Pwyllgor rôl ganolog mewn craffu a chynghori Bwrdd QAA am weithrediad y trefniadau diwygiedig ar gyfer trwyddedu Asiantaethau DMiAU, yn cynnwys ystyried argymhellion trwyddedu ar gyfer pob un o'r naw Asiantaeth DMiAU gydnabyddedig. Hefyd, ystyriodd ymarferoldeb cynnal prosiect peilot arfaethedig y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol yn y dyfodol. Roedd y cyfarfodydd ychwanegol yn adlewyrchu graddfa'r diwygio rheoleiddiol sydd ar waith a phwysigrwydd sicrhau llywodraethu a chraffu cadarn yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r Cynllun Cydnabod diwygiedig.

Yn ystod 2026-27, bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ac yn diweddaru ei gylch gwaith i adlewyrchu Cynllun Dirprwyo cyfredol QAA yn well, ac i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar oruchwyliaeth strategol yn hytrach na gweithgareddau gweithredol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys gwneud nod y Pwyllgor a'r mesuriadau o'i lwyddiant yn fwy eglur, rhoi mwy o bwyslais ar welliant ochr yn ochr â sicrwydd rheoleiddiol, ac ystyried sut y gellir ymwreiddio barn a llais y dysgwyr yn fwy effeithiol yng ngwaith y Pwyllgor. Bydd yr adolygiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr adolygiad ehangach y mae QAA wrthi'n ei wneud o'i threfnau llywodraethu, ac yn sicrhau bod y Pwyllgor RhThrMiAU yn parhau i roi cyngor a sicrwydd strategol effeithiol i Fwrdd QAA.

Trosolwg ariannol

Gweithredir y Cynllun Cydnabod Mynediad i AU ar sail adfer costau ac mae'n cael ei ariannu'n bennaf drwy ffioedd a delir gan Asiantaethau DMiAU wedi eu trwyddedu. Fel amod o'i thrwydded, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gyfrannu at gostau cynnal, gweithredu a datblygu'r Cynllun Cydnabod. Cyfrifir ffioedd blynyddol drwy ddefnyddio fformiwla eglur sydd wedi ei seilio ar nifer y dysgwyr Mynediad i AU newydd sydd wedi eu cofrestru gyda phob un o'r Asiantaethau DMiAU, gan ddefnyddio cyfradd gyffredin fesul dysgwr ar draws y sector. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y costau rheoleiddio'n cael eu rhannu'n gyfraneddol yn unol â maint gweithgareddau pob Asiantaeth DMiAU.

Mae'r ffi flynyddol yn cefnogi swyddogaethau rheoleiddio craidd QAA, sy'n cynnwys trwyddedu, monitro, sicrhau ansawdd, datblygu polisïau rheoleiddiol, llunio canllawiau a goruchwylio'r sector cyfan. Yn ogystal, lle mae gofyn am drefniadau monitro manylach, ymchwiliadau neu unrhyw weithgareddau rheoleiddio eithriadol eraill, mewn perthynas ag Asiantaeth DMiAU benodol, efallai yr ychwanegir ffioedd ychwanegol i adennill costau'r gweithgareddau hynny yn hytrach na'u dosbarthu nhw ar draws y sector ehangach. Mae hyn yn sicrhau bod costau rheoleiddio arferol yn cael eu rhannu rhwng pawb, tra bo costau eithriadol yn cael eu talu gan y sefydliad sy'n peri'r gweithgareddau rheoleiddio ychwanegol.

Atodiad B: Amodau'r Cynllun Cydnabod Mynediad i AU

Y **Cynllun Cydnabod Mynediad i AU** yw'r fframwaith rheoleiddio y mae QAA yn ei ddefnyddio i drwyddedu a goruchwylio Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU'). I gael a chadw trwydded, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fodloni cyfres o ofynion sydd â'r nod o sicrhau cywirdeb ac ansawdd y Diploma Mynediad i AU a'r gydnabyddiaeth a roddir iddo ar lefel genedlaethol.

Mae dwy elfen graidd i'r Cynllun Cydnabod:

- **Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU:** sef y telerau cytundebol y mae'n rhaid i bob sefydliad gytuno iddynt er mwyn dod, a pharhau i fod, yn Asiantaeth DMiAU wedi ei thrwyddedu.
- **Yr Amodau Mynediad i AU:** sef y gofynion rheoleiddiol y mae'n rhaid i bob Asiantaeth ddangos ei bod yn gallu eu bodloni, a pharhau i'w bodloni, er mwyn cadw ei thrwydded.

Ategir yr Amodau gan ystod o **Ddogfennau Rheoleiddiol**, sy'n cynnwys gofynion a chanllawiau manylach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Y trefniadau trwyddedu:** sy'n nodi sut mae trwyddedau'n cael eu dyfarnu, eu hadnewyddu, eu tynnu'n ôl a'u hildio.
- **Y trefniadau monitro:** sy'n esbonio sut mae QAA yn monitro cydymffurfiad â'r Cynllun Cydnabod, ac yn ymateb os bydd pryderon yn codi.
- **Y gofynion o ran y cymhwyster:** yn cynnwys Manyleb y Diploma Mynediad i AU, y Cynllun Graddio Mynediad i AU a'r Disgrifwyr Pwnc, sy'n gosod y gofynion o ran cynllunio, darparu, asesu a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU.

Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn darparu fframwaith cyson a chymesur ar gyfer rheoleiddio Asiantaethau DMiAU, sicrhau safonau academaidd, diogelu dysgwyr a chynnal hyder yn y Diploma Mynediad i AU, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae dogfennaeth y Cynllun ar gael ar wefan QAA: https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/meini-prawf-trwyddedu-mynediad-i-au

Mae Amodau'r Cynllun Cydnabod Mynediad i AU wedi eu strwythuro mewn chwe rhan (A i F), ac mae pob un ohonynt yn cynnwys nifer gwahanol o is-amodau unigol.

Rhan 1: Yr Asiantaeth DMiAU

Adran A – Trefnau rheoli, llywodraethu a strategaeth

- **A1:** Trefniadau llywodraethu
- **A2:** Atebolrwydd
  - **A2.1:** Swyddog Cyfrifol
  - **A2.2:** Datganiad Strategol
  - **A2.3:** Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad
- **A3:** Hyfywedd ariannol ac adnoddau
  - **A3.1:** Sicrhau'r gallu i ddatblygu a dyfarnu cymwysterau
  - **A3.2:** Sicrhau hyfywedd ariannol
- **A4:** Canfod a rheoli risgiau
- **A5:** Cwyno ac apelio
- **A6:** Cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol
  - **A6.1:** Y Dogfennau Rheoleiddiol
  - **A6.2:** Y nodau masnach Mynediad i AU
- **A7:** Cofrestru myfyrwyr

Adran B – Monitro a darparu gwybodaeth

- **B1:** Rhoi gwybod i QAA am ddigwyddiadau penodol
- **B2:** Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i QAA
- **B3:** Monitro Asiantaethau DMiAU gan QAA
- **B4:** Gofynion o ran cyflwyno gwybodaeth a data
- **B5:** Gwaith yr Asiantaeth DMiAU o fonitro ei chofnodion

Rhan 2: Darparwyr a gymeradwyir i ddarparu'r cyrsiau Mynediad i AU

Adran C – Cydnabod Darparwyr a chyrsiau

- **C1:** Cymeradwyo Darparwyr
  - **C1.1:** Y broses gymeradwyo
  - **C1.2:** Gofyniad am gytundeb rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r Darparwr
  - **C1.3:** Cadarnhau'r gymeradwyaeth i'r Darparwr
- **C2:** Monitro Darparwyr yn barhaus

Rhan 3: Dilysu, cymeradwyo a darparu'r Diploma

Adran D – Datblygu'r Diplomâu

- **D1:** Cynnwys a strwythur y Diplomâu
  - **D1.1:** Cydymffurfio â'r Cynllun Cydnabod
  - **D1.2:** Hygyrchedd y ddarpariaeth Diplomâu
  - **D1.3:** Addasu unedau a Diplomâu
- **D2:** Cymeradwyo Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a'u dilysu'n barhaus
  - **D2.1:** Cymeradwyo a dilysu Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU ar y cychwyn
  - **D2.2:** Ail-ddilysu'r Diploma
  - **D2.3:** Sicrhau ansawdd
- **D3:** Terfyniad y Diploma ac ymadawiad y darparwr
  - **D3.1:** Terfyniad y Diploma Mynediad i AU
  - **D3.2:** Ymadawiad y darparwr
- **D4:** Trosglwyddo Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU

Adran E – Gosod, darparu a safoni asesiadau

- **E1:** Gweithredu trefniadau safoni a sicrhau cydraddoldeb
- **E2:** Cynllunio asesiadau
- **E3:** Camymddwyn academaidd (gan gynnwys mewn perthynas ag offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol)
- **E4:** Safoni
  - **E4.1:** Safoni mewnol
  - **E4.2:** Safoni allanol
  - **E4.3:** Recriwtio, dethol a phenodi safonwyr allanol
  - **E4.4:** Ymsefydlu a hyfforddi safonwyr allanol
  - **E4.5:** Adroddiadau safonwyr

Adran F – Dyfarnu'r cymhwyster

- **F1:** Cydnabod cymwysterau
  - **F1.1:** Gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU
  - **F1.2:** Ardystio
  - **F1.3:** Trawsgrifiad o gyflawniad

Atodiad C – Tablau ystadegol

gyda data Asiantaethau DMiAU ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25

Nodweddion y dysgwyr	Nifer y dysgwyr cofrestredig (wedi'i dalgrynnu)	Canran o gyfanswm y dysgwyr cofrestredig
Benyw	25,525	73.4%
24 oed neu'n iau	18,310	52.6%
25 oed neu'n hŷn	16,480	47.4%
O ardal dan anfantais	7,845	22.5%
Statws anfantais anhysbys	7,635	21.9%
Asiaidd	3,490	10.0%
Du	5,160	14.8%
Cefndir aml-ethnig	2,280	6.6%
Cefndir ethnig arall	1,265	3.6%
Gwyn	19,115	54.9%
Gydag anawsterau dysgu a/neu anableddau	3,925	11.3%
Heb unrhyw anawsterau dysgu neu anableddau	19,281	55.4%
Heb ei ddatgelu	75	0.2%
Ni roddwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn ag anableddau	11,510	33.1%
Cyrchnod: addysg uwch	10,335	60.5%
Cyrchnod anhysbys	2,005	11.7%
Cyfanswm y dysgwyr	**34,790**	

Cwblhad a chyflawniad	2024-2025
Nifer y dysgwyr oedd wedi eu cofrestru i gwblhau'r cwrs o fewn blwyddyn academaidd (o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf)	17,500
Nifer y dysgwyr oedd wedi eu cofrestru i gwblhau'r cwrs o fewn mwy na blwyddyn academaidd	17,285
Nifer y dysgwyr oedd newydd eu cofrestru	24,915
Cyfanswm y dysgwyr cofrestredig	**34,790**
Y ganran o'r dysgwyr oedd wedi eu cofrestru i gwblhau'r cwrs o fewn blwyddyn academaidd (o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf)	50.3%
Y ganran o'r dysgwyr oedd wedi eu cofrestru i gwblhau'r cwrs o fewn mwy na blwyddyn academaidd	49.7%
Nifer y dysgwyr a enillodd y Diploma Mynediad i AU	**17,080**
Cyfanswm y dysgwyr oedd wedi cwblhau'r Diploma	18,370
Nifer y dysgwyr llawn amser* oedd wedi cwblhau'r cwrs Diploma o fewn blwyddyn academaidd	13,830
Nifer y dysgwyr llawn amser* oedd wedi cwblhau'r cwrs Diploma ac wedi ennill y dystysgrif	13,325
Nifer y dysgwyr oedd wedi ennill y Diploma fel canran o gyfanswm y dysgwyr a gwblhaodd gwrs Diploma	93.0%
Nifer y dysgwyr oedd wedi ennill y Diploma fel canran o'r dysgwyr llawn amser*	97.6%
Nifer y dysgwyr llawn amser* oedd wedi ennill y dystysgrif fel canran o'r dysgwyr llawn amser* a gychwynnodd ar gwrs Diploma yn y flwyddyn academaidd (cyfradd cyflawni)	76.1%
Nifer y dysgwyr llawn amser* oedd wedi cwblhau'r cwrs Diploma fel canran o'r dysgwyr llawn amser* a gychwynnodd ar gwrs Diploma yn y flwyddyn academaidd (cyfradd cadw)	79.0%
Nifer y dysgwyr llawn amser* oedd wedi ennill y dystysgrif fel canran o'r dysgwyr llawn amser* a gwblhaodd gwrs Diploma yn y flwyddyn academaidd (cyfradd 'pasio')	96.4%
Nifer y dysgwyr oedd wedi ymadael yn gynnar yn ystod y flwyddyn academaidd	5,410
Nifer y dysgwyr oedd wedi ymadael yn gynnar fel canran o gyfanswm y dysgwyr cofrestredig	15.6%

* Nifer y dysgwyr oedd wedi eu cofrestru i gychwyn a chwblhau eu cwrs Diploma o fewn y flwyddyn academaidd yr adroddir amdani (sef dysgwyr llawn amser)

Disgrifiad o'r cyfuniadau o raddau	Y ganran o gyfanswm y Diplomâu a roddwyd
Graddau 'Rhagoriaeth' i gyd (dim 'Pasio' neu 'Deilyngdod')	14.8%
Graddau 'Teilyngdod' i gyd (dim 'Pasio' neu 'Ragoriaeth')	0.3%
Graddau 'Pasio' i gyd (dim 'Teilyngdod' neu 'Ragoriaeth')	0.9%
Rhai graddau 'Teilyngdod' a 'Rhagoriaeth' (dim 'Pasio')	42.6%
Rhai graddau 'Pasio' a 'Rhagoriaeth' (dim 'Teilyngdod')	0.9%
Rhai graddau 'Pasio' a 'Theilyngdod' (dim 'Rhagoriaeth')	7.9%
Rhai graddau 'Pasio', 'Teilyngdod' a 'Rhagoriaeth'	32.5%

Cyhoeddwyd ar Tachwedd 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026

Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000

www.qaa.ac.uk